

Trosolwg

Tuesday, December 10, 2019 2:17 PM

Enw Myfyrwyr : Ben Murphy

Rhif Myfyrwyr : 1901788


Teitl Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Llwybr: TAR Uwchradd

Linc I OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1901788_student_uwtsd_ac_uk/EpwV3W2oty1BrAeWVEX23TMBiZ1E-nWw4ocGyaHp0d5aYQ?e=KTitVO

Asesu ar gyfer dysgu

Tuesday, December 10, 2019 2:17 PM



Sylwadau Athro Dosbarth – 24/10/19 (1)


Mae enghraifft (chwith) yn dod o'r Dydd Lyfr dosbarth sydd yn cadw cofnod o'r sylwadau'r athro dosbarth gan gynnwys cryfderau a thargedau (meysydd i wella). Mae'r cofnod yn dod o wers Blwyddyn 8 ar Ddydd Gwener y Pedwerydd a hugain o Hydref sef wythnos gyntaf y PAP cyntaf.

Fel rydych yn gweld mae'r cofnod yn pwysleisio'r agen i Asesu dealltwriaeth y disgyblion yn ystod y wers, rhywbeth yn yr wythnosau cyntaf nad oedd wedi gwneud. Mae'r dosbarth sef 8R yn ddosbarth gallu cymysg a gan oedd hyn yn ystod yr wythnos gyntaf nad oedd wedi sefydlu perthynas, wrth adfyfrio rwy'n gallu gweld fod asedu ar gyfer dysgu yn angenrheidiol yn yr achos yma.

Mae'r athro dosbarth yn cofnodi "a gofyn oes rhywun am ofyn cwestiwn cyn dechrau ysgrifennu" er bod hyn yn ffordd syml iawn o AAGD yn yr wythnosau cyntaf gall fod yn dechneig syml ond hynod o effeithiol i sicrhau fod y disgyblion yn llwyddo i ddeall nod y wers.

Wrth darllen erthygl cyntaf **Paul Black a Dylan Wiliam 'Inside the Black Box: Raising Standards through Classroom Assessment'** mae awdur yn pwysleisio faint o blant sydd yn colli mass oherwydd mae'r athro yn anymwybodol fod disgybl yn cael anhawster neu heb deall cyfarwyddiadau y athro.

Er mwyn sicrhau nad oedd hyn digwydd eto, edrychais i nifer o wahanol fyrdd gall wneud Asesu ar gyfer dysgu o fewn y dosbarth. Welodd fod nifer o dechnegau syml gall defnyddio er mwyn sicrhau fod disgyblion yn deall yn llawn beth sydd agen gwneud/dweud i lwyddo. Ar ôl trafodaeth gyda fy mentor ddosbarth welodd fod golau traffig (coch melyn a gwyrdd) gyda phob disgybl yn eu dyddiadur personol, welodd fod hyn yn dechneig wych a hawdd er mwyn asedu ar gyfer dysgu a phenderfynais i'w defnyddio er mwyn datblygu yn broffesiynol a hefyd cynyddu dealltwriaeth y disgyblion.



Cynllun Gwers 6/11/2019 (2)

Mae'r enghraifft yma yn dod o wers Blwyddyn 8 ar ôl derbyn targed o sicrhau fod yna cynnwys o asedu ar gyfer dysgu yn ystod y wers. Wrth ymchwilio i mewn i wahanol ffyrdd o asedu ar gyfer dysgu gwelodd fod y brif nod oedd sicrhau fod y disgyblion yn deall nod y wers ac yn dangos hyn trwy waith disgwylidig. Gwelodd cyfle gyda'r dosbarth Blwyddyn 8M i wneud cwis ar bapur ar ddiwedd y wers oedd yn asedu dealltwriaeth y plant o'r wers. Gan fy mod wedi datblygu perthynas dda gyda'r plant credaf gall rhoi cwis iddynt gan osgoi unrhyw bwysau o asesiad ffurfiol.

Nod y wers oedd rhesymau Martin Luther am fynd yn erbyn yr Eglwys Gatholig, ac yn wlo'r cwynion ar ddrws yr Eglwys. Roedd disgwyl i'r disgyblion deall y rhesymau tu ôl hyn, pwy oedd Martin Luther beth oedd prif gwynion a deall yr ystyr tu ôl Protestannaidd. Roedd y daflen cwis ar y diwedd yn gofyn 10 cwestiwn gwahanol oedd hyn asedu dealltwriaeth y disgyblion o'r wers er enghraifft "Enwch 3 cwyn Martin Luther?" neu "Pwy oedd Martin Luther". Roedd disgwyl i'r plant defnyddio'r wybodaeth dysgon nhw yn ystod y wers i ateb y cwestiynau.

Wrth edrych yn ôl ar y wers roedd y Dull o asedu ar gyfer dysgu yn llwyddianus, serch hynny wrth ystyried fy nhargdau o wers blaenorol ac adfyfrio dros y wers roedd agen sicrhau roedd yn dechneig ar dechrau y wers er mwyn ases dealltwriaeth plant. Gan dderbyn hynny roedd agen ymchwilio yn fwy i weld ba dechnegau oedd ar gael.

Sylwadau Athro Dosbarth 12/11/10 (3)

Mae enghraifft (chwith) hefyd yn dod o'r Dydd Lyfr dosbarth sydd yn cadw cofnod o'r sylwadau'r athro dosbarth gan gynnwys cryfderau a thargedau (meysydd i wella). Mae'r cofnod yn dod o wers Blwyddyn 7 ar y deunawfed o Dachwedd. Mae'r sylwadau yn dod ar ôl wers dyniaethau "Beth yw Cristion" roedd hyn yn fy ngwers gyntaf gyda'r dosbarth a gan fod yr uned yn un newydd a hefyd tu fas i bwnc craidd fy hun sef Hanes gwelodd hyn fel gwers angenrheidiol i'w defnyddio'r dechneg golau traffig fel ffordd o asedu ar gyfer dysgu. Nid yn unig i asedu dealltwriaeth y disgyblion ond hefyd i sicrhau fod esboniad fy hun yn glir. Fel sonia uchod roedd hyn yn y tro cyntaf yn dysgu'r dosbarth er fy mod wedi arsylwi am gyfnod cyn, roedd hyn yn hynod o ddefnyddiol gan fod yn gyfle i ddod i nabod anghenion y dosbarth cyfan.

Yn ystod yr wythnosau cyntaf gwelodd fod asedu ar gyfer dysgu yn codi fel targed, nid oedd hun dderbyniol neu yn gweithio ddim ond i ofyn "os roedd pawb yn deall" gan fod rhai disgyblion ddim yn teimlo'n hyderus i ddweud o flaen dosbarth neu gydag athro newydd. Wnes i wneud cofnod o'rfaith fod agen sicrhau fy mod yn defnyddio'r dechneg o golau traffig ar ôl esbonio er mwyn sicrhau os nad oedd rhai yn deall y tro cyntaf roedd cyfle iddyn nhw ddangos troi dangos i fi pa liw oeddent yn teimlo.

Mae ymchwil sylweddol wedi eu wneud ar defnydd o dechneg Golau Traffig, mae ymateb athrawon yn cael eu nodi yn waith **'Assessment for Learning' (Paul Black, 2007)**

Ar ôl ofyn roedd nifer fawr o'r dosbarth wedi troi i wyrdd sy'n dangos fod nhw'n deall beth yw'r disgwylidau fi fel athro a nod y wers ond welodd fod rhai unigolion wedi newid i felyn sy'n dangos nad oedd yn gant y cant siŵr o'r nod. Wrth fynd o gwmpas yn esbonio'r dasg i'r unigolion, ofynnais i un disgybl (x) oedd wedi dangos gwyrdd i esbonio i ddisgybl y tra bod fi yn esbonio i'r llall.

Gwelodd fod y dechneg wedi gweithio yn hynod o llwyddianus ac yn braf weld fod cynnydd clir wedi eu ddangos o'r wythnos cyntaf, yn safon o ddysgu ac hefyd yn waith y ddisgyblion.



Cyfrideoau	Meysydd i odatalogu
* Archedau hydref	* Pwysu - bag unigol
* Bwrdd ydy? disgyblion	* bag par
* yn gwybod	* Trefed / dymuniad
* Yn cael enwau'r	* (eg. rhed)
disgyblion	* Anwydd - Trefed (ynghyd)
* Sefid eiddoedd - rhed	* Trefed yn hir
* Anwydd - Eiddau gwydd	* Anghyngn o hysp
* Trefed eiddoedd	* PPT - Mawr ysgol
* Disgyblion cadarn	* Un golan i'r 20% ysgolion → Genia eiddoedd
* PPT - Genia eiddoedd	* Cyfngyfrifau ddydd
* Genia eiddoedd	* ysgol / bwrdd gwydd
* Anghyngn / ddydd	
* Genia eiddoedd	
* Anghyngn / ddydd	
	NAE

hynod o ddiddorol gan fod ym gyfwrdd i nodu anghyngnion y dosbarth cyfan.

Yn ystod yr wythnosau cyntaf gwelodd fod asesu ar gyfer dysgu yn codi fel targed, nid oedd hun dderbyniol neu yn gweithio ddim ond i ofyn "os roedd pawb yn deall" gan fod rhai disgyblion ddim yn teimlo'n hyderus i ddweud o flaen dosbarth neu gydag athro newydd. Wnes i wneud cofnod o'rfaith fod agen sicrhau fy mod yn defnyddio'r dechneg o golau traffig ar ôl esbonio er mwyn sicrhau os nad oedd rhai yn deall y tro cyntaf roedd cyfle iddyn nhw ddangos troi dangos i fi pa liw oeddent yn teimlo.


Mae ymchwil sylweddol wedi eu wneud ar defnydd o dechneg Golau Traffig, mae ymateb athrawon yn cael eu nodi yn waith '**Assessment for Learning**' (Paul Black, 2007)

Ar ôl ofyn roedd nifer fawr o'r dosbarth wedi troi i wyrdd sy'n dangos fod nhw'n deall beth yw'r disgwyliadau fi fel athro a nod y wers ond welodd fod rhai unigolion wedi newid i felyn sy'n dangos nad oedd yn gant y cant siŵr o'r nod. Wrth fynd o gwmpas yn esbonio'r dasg i'r unigolion, ofynnais i un disgybl (x) oedd wedi dangos gwyrdd i esbonio i ddisgybl y tra bod fi yn esbonio i'r llall.

Gwelodd fod y dechneg wedi gweithio yn hynod o llwyddianus ac yn braf weld fod cynnydd clir wedi eu ddangos o'r wythnos cyntaf, yn safon o ddysgu ac hefyd yn waith y ddisgyblion.

Cyfrifoldebau Trawscwricwlaidd


Tuesday, December 10, 2019 2:22 PM



Cynllun Gwers 7/11/2019 (1)

Mae'r enghraifft yma yn dod o gynllun gwers wnes i wneud am wers Hanes i flwyddyn 8. Roedd y wers yn ffocysu ar Ddiwygiad Protestannaidd ac roedd disgwyl i'r disgyblion defnyddio'r wybodaeth o'r wers flaenorol er mwyn ysgrifennu llythyr at y Pab.

Dewisai'r enghraifft yma gan fod egwyddorion traws cwricwlaidd, mae'r elfen Hanesyddol ac Addysg Grefyddol yn glir gan eu bod yn disgwyl i'r disgyblion cynnwys rhesymau Hanesyddol a Crefyddol er mwyn torri i fwrdd o Rufain. Mae'r elfen llythrennedd yn dod o'r dasg o ysgrifennu llythyr, beth sy'n wneud llythyr effeithiol ac yr iaith ffurfiol sydd yn cael eu defnyddio. Wrth adfyfrio ar y wers credaf fod agen pwysleisio fod yr elfen o ysgrifennu llythyr yr un mor bwysig ar gynnwys hanesyddol. Welodd fod y disgyblion yn ffocysu ar elfen Hanesyddol gan fod hi'n wers Hanes. Er mwyn sicrhau nad ydy hyn digwydd eto, er mwyn i'r elfennau traws cwricwlaidd o'r wers i lwyddo byddaf yn pwysleisio'r nodweddion o lythyr da e.e.. Brawddegau effeithiol, beth i gynnwys a sut i gloi. Welodd fod rhai disgyblion wedi ysgrifennu hanner tudalen a rhai dau, mae hyn yn dangos roedd yr elfen o'r llythyr wedi eu colli.




Cynllun Gwers- 21/11/2019 (2)

Dewisai'r enghraifft nesaf gan eu bod yn ddatblygiad o'r egwyddor draws gricwlaidd ac yn dangos datblygiad cynllun gwers. Mae'r cynllun yn nodi fod y wers yn cynnwys elfen lythrennol, Hanesyddol a Crefyddol. Roedd ffocws y wers ar ôl taflen papur newydd oedd yn cynnwys gwybodaeth am resymau ymosodiad yr Armada. Roedd ysbrydoliaeth y dasg yn dod o'r profion cenedlaethol mae'r disgyblion 7-9 yn gwneud. Fel y profion roedd y dasg yn ofyn i'r disgyblion i ddarllen yr erthygl papur newydd ac yna ateb cwestiynau (darllen a deall).

Ffocws y wers oedd darganfod a dysgu'r prif resymau am ymosodiad yr Armada ar Brydain. Fel soniais god penderfynais greu'r daflen gwybodaeth fel erthygl Papur Newydd, y prif gymhellid tu ôl hyn oedd cynnwys nifer fawr o elfennau traws cwricwlaidd mewn un dasg. Roedd taflen cwestiynau i fynd gyda'r erthygl ac roedd disgwyl i'r plant i lenwi. Roedd y cwestiynau yn amrywio o rhai Hanesyddol a chrefyddol gyda'r resymau tu ôl i'r frwydr ond hefyd gyda rhai daearyddol. Roedd disgwyl i'r plant wneud awgrym o'r daith yr Armada o Lisbon i Brydain gan ddefnyddio llefydd ac enwau allweddol.


Wrth edrych yn ôl ar y wers welodd fod yr elfen o ddarparu'r wybodaeth fel erthygl papur newydd wedi gweithio'n dda ac oherwydd hynny colodd y cyfle i ychwanegu fwy o elfennau traws cwricwlaidd. Roedd y rhan map daith yr Armada yn un llwyddiannus a welodd fod yr elfennau o Hanes a Daearyddiaeth yn cyd-weithio'n dda. Prif nod y wers oedd deall y resymau am yr ymosodiad a pwy a beth oedd yr 'Armada' oherwydd hynny colodd cyfle i wneud tasg rhifedd yn ystod y wers. Gyda chynllunio'n fwy manwl gydag esboniad cliriach o'r wers byddaf yr absenoldeb o'r elfen yma wedi dod i'r amlwg.




Taflen Gwaith/ Cynllun Gwers Rhyfel Byd Cyntaf (Haig). (3)

Credaf fy mod wedi cael anhawster gyda gweithredu tasgau heriol a defnyddiol sy'n gynnwys elfennau trawsgricwlaidd, mae'r prif ddyfyniad yr egwyddor i'w i gynnwys fwy nag un pwnc o fewn gwers gyda chysylltiadau perthnasol rhyngdynt (Gorik, 2013). Wrth edrych ar yr enghreifftiau blaenorol credaf roedd lawer o le i wella er mwyn cyrraedd safon ddisgwyliedig. Gan siarad gydag athrawon ar draws yr ysgol a thiwtor o fewn y brifysgol am dechnegau i gyfoethogi'r elfen gwelodd cyfle mawr wrth gynllunio'r wers yma i ddangos gwers drawsgricwlaidd o safon.


Mae'r dystiolaeth (chwith) yn dangos cynllun gwers (bwriad fy ngwers a nodweddion trawsgricwlaidd) a hefyd y daflen waith wnes i baratoi. Roedd y wers am flwyddyn 9 a oedd yn



Dadansoddi Cerdd 'Llythrennedd'



Safbwyntiau Hanesyddol 'Hanes'



Tasg Rhifedd 'Graff Linell'


drawsgwricwlaidd o safon.

Mae'r dystiolaeth (chwith) yn dangos cynllun gwers (bwrriad fy ngwers a nodweddion trawsgwricwlaidd) a hefyd y daflen waith wnes i baratoi. Roedd y wers am flwyddyn 9 a oedd yn astudio'r Rhyfel byd cyntaf, gan fod yr adeg yma yn llawn llenyddiaeth a cherddi welodd hyn fel cyfle da i ychwanegu tasg llythrennedd (cerdd Wilfred Owen). Wrth ochr hyn roedd y ffigurau brwydr y Somme sef y brif nod y wers felly welodd cyfle i greu tasg rhifedd oedd yn dangos ffigurau o ddiwrnod cyntaf i'r olaf (Prydain, Almaen, Ffrainc). Roedd y ddwy dasg yn dasgau byr ond yn gadael i'r plant wneud penderfyniad eu hun dros thema'r wers sef tactegau Haig yn ystod y Somme.

Wrth edrych yn ôl ar y wers roedd yr egwyddorion trawsgwricwlaidd wedi llwyddo i ddenu sylw'r dosbarth i gyd. Chredaf fod rhai unigolion o fewn y dosbarth wedi llwyddo i wneud penderfyniad eu hun dros thema efallai nad oedd gyda diddordeb mewn (sef dadl fawr o blaid defnyddio egwyddor yma) . I fi roedd y wers mewn ffordd wedi llwyddo i ddangos beth gall gwers drawsgwricwlaidd yn gallu gwneud am bwnc fel Hanes.

Adeiladu a brofiad blaenorol

Tuesday, December 10, 2019 2:24 PM




12/11/20019

Mae enghraifft (chwith) yn dod o'r Dydd Lyfr dosbarth sydd yn cadw cofnod o'r sylwadau'r athro gan gynnwys cryfderau a thargedau (meysydd i wella). Mae'r cofnod yn dod o wers Blwyddyn 7 ar y deuddegfed o Dachwedd.

Mae'r cofnod yn dweud 'gan gysylltu ar y wers flaenorol' mae hyn oherwydd ar ddechrau'r wers penderfynais ddefnyddio dechneg 'brain storming' (Yuksel, 2012). Roedd hyn i sicrhau fod y plant yn wneud cysylltiad rhwng y gwersi a gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol yn helpu dysgu gwybodaeth newydd sydd i ddod yn y wers. Credaf fod y dechneg o brain storming neu gwestiynu plant am yr hyn nhw'n gwybod yn barod yn ffordd hynod o dda o wneud cysylltiadau. Credaf fod y dechneg yr un mor ddefnyddiol a chynhesu lan cyn gem droed. Mae'r wybodaeth yn helpu paratoi am y wybodaeth newydd sydd i ddod.


Wrth edrych yn ôl ar y wers welodd fod un problem wedi sefyll allan. Welodd fod yr un disgyblion yn ateb ac oherwydd hynny nad oedd wedi cael adlewyrchiad defnyddiol o'r dosbarth cyfan. Ymchwilodd mewn i dechnegau mwy addas i ddosbarth cyfan a welodd fod map meddwl yn dechneg gall defnyddio.



(2) 18/11/2019

Mae'r enghraifft yn dod o gynllun gwers Blwyddyn 7 (Dynaethau) roedd dechneg gyntaf o Adeiladu a phrofiad blaenorol wedi dod ar lafar gyda fi yn ofyn cwestiynau fel 'brain storming' ond penderfynais roedd agen targedu'r dosbarth cyfan. Gan ofyn i'r disgyblion i wneud map meddwl am 'beth yw cristion' gan ofyn i'r plant ysgrifennu lawr wybodaeth sydd gyda nhw yn barod. Roedd hyn yn ffordd effeithiol o weld rhwng y disgyblion a hefyd mesur yn yr wythnosau i ddod beth sydd wedi cael eu dysgu.

Wrth edrych yn ôl ar y wers roedd y dechneg wedi llwyddo i dargedu gwybodaeth flaenorol, roedd plant yn nodi gwybodaeth o wersi ac o fywyd pob dydd am ba eiriau neu wybodaeth sydd yn wneud Cristion. Er hynny roedd agen chwarae rôl yn y dasg, roedd y lfeilau o wybodaeth yn amrywio gydag unigolion yn cael anhawster ar ôl 4 gair. Credaf fod hyn oherwydd mae'r dosbarth yn un gallu cymysg neu oherwydd profiadau gwahanol ond wrth edrych ar ddatblygiad y wers roedd targedu gwybodaeth neu feddyliau wedi creu dechreuad da i ddatblygu.



3 Gwaith Disgybl x 3/12/19

Mae'r enghraifft yma yn dod o waith ddisgybl blwyddyn 7, fel rydych yn gweld o'r enghreifftiau penderfynais ddefnyddio'r un dosbarth gan eu bod yn dangos effaith o adeiladu a phrofiad blaenorol.

Er bod y gwaith yma yn dod o ddisgybl sydd a gallu uchel mae'n adlewyrchiad o'r effaith gall ABGB yn gallu cael.

Penderfynais wneud tasg Diagram venn gan eu bod yn gyfle i'r disgyblion ddangos y wybodaeth oeddent nhw'n cofio o'r gwersi blaenorol. Er mwyn sicrhau fod pob disgybl gyda'r wybodaeth gywir roedd cyfle i fi mynd dros atebion gall ychwanegu ar y diwedd. Ond yn graidd y dasg oedd gweld a oedd y technegau ABGB defnyddiais ar ddechrau'r gwersi wedi cael effaith. Welodd fod rhan fwyaf o blant wedi llwyddo i gofnodi gwybodaeth berthnasol mewn brawddegau llawn neu eiriau allweddol sy'n dangos fod cysylltiad wedi bod rhwng y gwersi. Fel dysgu geiriau o gan roedd plant wedi cofio gwybodaeth flaenorol a gyda'r gallu i gofnodi.

Er hynny mae yna dal lle i addasu a chynnyddu, welodd fod rhai plant yn hapus i aros i fi mynd dros atebion ac yna cofnodi neu i gyd-weithio gyda ffrind felly nad oedd hyn yn adlewyrchiad o bob disgybl.

Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gydfyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol

Yn y traethawd hwn, rwy'n mynd i adfyfyrio yn feirniadol ar enghreifftiau dewisais sy'n arddangos cynnydd proffesiynol mewn tair egwyddor addysgegol. Mae damcaniaeth adroddiad Graham Donaldson wedi datblygu addysg yng Nghymru i geisio sefydlu cwricwlwm sy'n addas am yr Unfed ganrif ar hugain. Mae teitl yr adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yn cyfeirio at cyfrifoldeb allweddol ysgolion i sicrhau lles a llwyddiant pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru (Donaldson, 2015). Yn ogystal mae'r adroddiad yn pwysleisio egwyddorion penodol i'w targedu er mwyn sicrhau addysgeg dda. Mae'r allu i gyflawni cynigion yr egwyddorion yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth (Black & Wiliam). Mae'n hanfodol i ni fel athrawon y dyfodol i weithredu prif oblygiadau'r cwricwlwm newydd ac adfyfyrio yn effeithiol ar eu cynlluniau er mwyn datblygu yn broffesiynol. Yn ystod yr adfyfyrio byddaf yn cyfeirio at enghreifftiau o fy mhrofiad addysgu yn ysgol x, ble yn ystod fy ngwersi rwyf wedi ceisio i ddangos elfennau o'r egwyddorion addysgegol. Rwyf wedi dewis tair egwyddor sef Asesu ar Gyfer Dysgu, Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd ac y drydedd egwyddor sef Adeiladu ar Wybodaeth a Phrofiad Blaenorol. Dewisai'r tair gan eu bod yn egwyddorion rwyf wedi eu targedu i adlewyrchu yn fy mhrofiad dysgu a chredai'r bod yr egwyddorion yma yn hynod o bwysig wrth geisio datblygu i fod yn athro rhagorol.

Mae'r egwyddorion nodai uchod yw'r craidd cynllun llywodraeth ac arweinwyr addysg yng Nghymru i geisio cyfoethogir sgiliau athrawon a disgyblion. Mae nifer fawr o lenyddiaeth, wedi eu hadeiladu ar flynyddoedd o arsylwi ac ymchwil wedi arwain i'r penderfyniadau yma. Wrth edrych ar egwyddor addysgeg gyntaf, Asesu ar Gyfer Dysgu rydym yn weld fod nifer o dechnegau, ymchwil a llenyddiaeth wedi eu targedu o gwmpas yr egwyddor. Yng nghraidd Asesu ar Gyfer Dysgu yw sicrhau fod pob disgybl yn ymwybodol o'r disgwyliadau'r a nod yr athro/ews am y wers er mwyn rhoi'r cyfle orai posib i lwyddo. Cyniga Paul Black yn eu llyfr 'Assessment for Learning' y farn fod 'the focus here is on any assessment for which the priority is to serve the purpose of promoting students learning' (Black, 2007). Mae'r casgliadau


Trisha Bowen yn cefnogi hyn gan nodi 'it as important to consider 'how' learning takes place as it is to consider 'what' has been learned (Bowen, 2009). Mae llawer o bwyslais heddiw ar bwysigrwydd llais y disgybl, mae hyn yn cael eu hadrodd yn 'Dyfodol Llwyddiannus' credai fod hyn yn gryfder mawr egwyddor Asesu ar gyfer dysgu trwy blaenoriaethu adborth y disgybl. Mae asesu ar gyfer yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu eu hun, ac i feddwl am y gamau nesaf er mwyn ceisio weld cynnydd. Maent yn hefyd annog sgiliau meddwl ac yn annog adfyfrio dros eu gwaith. Gan ystyried fod un o'r pedwar diben Donaldson yw ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, gallwn weld fod Asesu ar gyfer dysgu yn egwyddor hynod o ddefnyddiol i ni fel athrawon am y dyfodol. Serch hynny yn yr orffennol, welodd nifer problemau wrth geisio gweithredu'r dechnegau AAGD. Sonia'r Susan Cavendish am yr wrthiant athrawon i newid amgylchedd y dosbarth "they were not prepared to change classroom practices to give students more free responsibility and give themselves a less closely demanding control" (Cavendish, 1990). Y farn gyffredinol heddiw yw bod AAGD yn dechneg anffurfiol sy'n amrywio o ddosbarth i ddosbarth gyda thechnegau personol athrawon yn adlewyrchu trwy. Dadlau Black ymhellach gan nodi "it has to be within the control of the individual teacher and, for this reason, change in formative assessment practice is an integral and intimate part of a teachers daily work" (Black, 2007). Mae casgliadau llenyddiaeth AAGD yn pwysleisio pwysigrwydd perthynas rhwng yr athro a disgybl, a chredai fod hyn arwain i ddisgyblion sydd o 'gallu isel' i gynyddu'r siawns o gyrraedd potensial neu du hwnt eu potensial. Mae ysgolion yn gorbwysleisio graddau ac oherwydd hynny rydym yn colli'r cyfle i roi cymorth unigol o ganlyniad rydym yn weld rhai unigolion yn colli y cyfle i'w datblygu (Black & William, 1998). Rydym yn categoreiddio trwy raddau ond wrth ddefnyddio technegau AAGD rydym yn weld fod pob disgybl o isel i uchel yn derbyn y cyfle i lwyddo. Mae hyn yn cael eu crynhoi yn syml gan Bowen "at the heart of AFL is the belief that everyone can make progress" (Bowen, 2009). Mae casgliadau erthygl Nicol a Macfarlane-Dick yn cefnogi hyn gan nodi "the use of Afl, and feedback, is promoted as the way of enhancing student achievement" (Nicol, 2006).

Mae'r ail egwyddor addysgegol sef cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn cael eu hystyried fel egwyddor newydd yn faes addysg er mae syniadau craidd yn deillio o flynyddoedd yn ôl. Mae ymarfer trawsgwricwlaidd yn cael eu hadnabod fel: 'when the skills, knowledge and attitudes of two or more subjects are applied to a problem, theme or idea' (Barnes, 2005). Dros y degawdau diwethaf mae'r byd wedi datblygu, fel pob agwedd mewn cymdeithas roedd hefyd rhaid i addysg ddatblygu.

Mae ymchwilydd fel Hicks (2006) yn nodi fod pobl ifanc yn fwy ymwybodol am y byd o'i gwmpas. O ganlyniad felly yn poeni am bethau megis tlodi, rhyfel, trychinebau naturiol ac yn bennaf cynhesu byd- eang. Wrth ochr hyn mae'r datblygiad technegol gyda chyfrifiadur yn boced bron pob disgybl. Oherwydd hynny mae'r syniad a'r potensial o ddefnyddio agweddau trawsgwricwlaidd yn fwy angenrheidiol a cyflawnadwy ag erioed. Wrth ystyried pwnc fel Hanes, mae'r potensial sydd yn dod o gymryd strategaeth drawsgwricwlaidd yn anferth. Mae'r rhyddid o ddefnyddio egwyddorion trawsgwricwlaidd yn gadael i athrawon Hanes sefyll tu fas o'r 'comfort zone' a dysgu am lwyth o agweddau gwahanol o fewn thema benodol, gan gadw'r craidd nodweddion hanesyddol. Megis effaith busnes, ddaearyddol, amgylcheddol a gwyddonol yr adeg. Dadlau Gorik fod hyn yn atynnu disgyblion sydd efallai gyda ddim diddordeb o fewn y pwnc a chyfoethogir profiad y wers (Gorik, 2013). Gallwn ni ddim anwybyddu'r faith fod athrawon yn ddewis yr yrfa er mwyn ysbrydoli eraill mewn maes penodol. "With research in this area indicating that opportunity to develop ones subject and teach others about it is high on up on the list of most teachers' job satisfaction" (Spear , Gould , & Lee, 2000). Gallwn gymryd fod yr angerdd sydd tu fewn athro Hanes, ddim mor amlwg os byddant yn dysgu am wyddoniaeth (Gorik, 2013). Serch hynny beth rydym yn weld o lenyddiaeth ac ymchwil trawsgwricwlaidd yw'r potensial mewn technegau addysgegol sydd ar gael. Wrth grynhoi rydym yn weld potensial ddiddiwedd mewn profiadau a'r cyfleodd i gyfoethogi addysg y plant os rydym yn llwyddo fel cymuned i weithredu egwyddorion trawsgwricwlaidd.

Yn y bennod yma, bydd y dadleuon yn ffocysu ar y drydedd egwyddor, adeiladu a gwybodaeth a phrofiad blaenorol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ymchwil addysgol a seicolegol yn cynnig tystiolaeth gadarn dros adeiladu a gwybodaeth flaenorol, y dechneg o dargedu neu adeiladu gwers ar wybodaeth mae'r plant wedi dysgu yn barod. Mae'r theori egwyddor yma wedi eu hadeiladu ar waith Jean Piaget. Gwelir fod ymchwil Piaget wedi dylanwadi nifer fawr o seicolegydd addysg heddiw. Mae damcaniaethau Piaget yn dadlau fod gwybodaeth newydd yn cael eu cysylltu ag adeiladau ar wybodaeth sydd barod gyda'r dysgwr. Gan ystyried hyn, mae technegau adeiladu ar wybodaeth flaenorol yn gallu fod ffordd ragorol o ddechrau pwnc neu wers newydd. Mae damcaniaeth Piaget yn cael eu crynhoi mewn termau addysg trwy "constructivism indicates that knowledge is constructed based on the already existing knowledge in learners minds"(Hmelo-Silver, 2007) .Mae Dr Jim Cummins o brifysgol Toronto yn arbenigo ar ddatblygiad iaith a llythrennedd ac yn dadlau yn gryf am bwysigrwydd AWPB. "The more we already

know about the topic in the text, the more of the text we can understand” (Cummins, 2008). Ymhellach mae Dr Cummins yn pwysleisio “no learner is blank state. Each person’s prior experience provides the foundation for interpreting new information” (Cummins, 2008). Er bod nifer o addysgwyr wedi cofleidio yn y theori lluniadaeth mae yna nifer sydd yn arwain gwrthwynebiad iddynt. Un ddadl sy’n sefyll allan yw’r ddadl fod pob disgybl yn weld yr amgylchedd o’i gwmpas yn wahanol (Carlson, Lundy, & Schneider, 1992). Oherwydd hynny mae ffordd o addysgu a’r amgylchedd o’i gwmpas agen fod yn hyblyg (Jonassen, 1991). Mae hyn yn cael eu cryfhau “from a constructionist perspective, students are like blank slates for whom teachers need to design common instruction to guide them in how to learn and perform” (Alanzi, 2016). Serch hynny credaf fod gwybodaeth flaenorol yn cael effaith amlwg ar ddysgu plant, cryfhau hyn gan seicolegydd addysg David Paul Ausubel, adfocad gwybodaeth flaenorol. Nodai Ausubel “The most important single factor influencing learning is what the learner already knows. Ascertain this and teach him accordingly” (Ausubel, 1978). Er bod gwaith Ausubel o’r 70au rydym wedi gweld datblygiad sylweddol mewn ymchwil seicoleg addysg ac yn bennaf ar weithredai’r ymennydd. Gellir ystyried ymchwil ‘Evidence based teachers network’ sy’n pwysleisio pwysigrwydd Gwybodaeth flaenorol yn eu 6 cam ‘6 steps for outstanding teaching’ (Evidence Based Teachers Network , 2017). Mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu fod dysgu yn cynnwys cysylltiau rhwng niwronau yn yr ymennydd. Mae’r diagram isod yn dangos sut mae’r rhwydwaith o gysylltiadau ti fewn i’r ymennydd yn gweithio wrth ddysgu gwybodaeth newydd. (Evidence Based Teachers Network , 2017).



Fel athro dan hyfforddiant yn ystod yr adeg yma o newid yn addysg Cymru rwyf

wedi arsylwi llaw gyntaf yr egwyddorion yma ac yr effaith bositif mae cyflawni'r egwyddorion yma i safon yn gallu cael ar addysgu a dysgu. Gan fy mod ar ddechrau fy ngyrfa o ddysgu credaf fy wedi gweld cynnydd sylweddol mewn meysydd gwahanol trwy gyflwyno ac yn adfyfrio ar wersi. Wrth edrych ar yr enghreifftiau (one note) rydym yn weld cynnydd sylweddol mewn defnydd o AAGD. Gallwn weld fod yr enghraifft gyntaf yn dod o sylwadau athro ac yn nodau'r agen i ailadrodd cyfarwyddiadau. Wrth gymryd safbwynt P.Black & Wiliam (1998) mae mwyafrif o ddisgyblion yn anymwybodol o amcanion dysgu'r wers, ac fel athrawon mae'n hynod o bwysig fod ni'n arwain disgyblion i ddeall beth ddylai nhw ddysgu (Black & Wiliam, 1998). Wrth edrych nôl ar y wers welodd fod agen eu haddasu er mwyn sicrhau fod yna tystiolaeth gadarn fod y plant wedi deall amcanion y wers. Roedd hefyd agen ffordd i'r disgyblion ddangos i fi (fel athro newydd) dealltwriaeth o'r cyfarwyddiadau. Mae'r llenyddiaeth yn dangos fod yna nifer fawr o dechnegau i'w gael er mwyn gweithredu AAGD yn effeithiol, gyda chanlyniadau ymchwil athrawon ar draws y byd. Penderfynais ychwanegu cwis fel ffordd o gwestiynu ar ddiwedd y wers gydag amryw o gwestiynau caeedig ac agored er mwyn profi oedd y dosbarth wedi deall y wers (Black, 2007). Roedd y cwis wedi eu gwneud mewn ffordd anffurfiol er mwyn osgoi unrhyw bwysau sy'n dod gyda'r geiriau 'prawf' hefyd penderfynais wneud ar fyrdd taflen unigol. Wrth ddarllen 'Assessment for Learning' welodd fod agen addasu techneg o gwestiynu gan fod tuedd i'r un bobl ateb tro ar ôl tro ar lafar, roedd agen asesu'r dosbarth cyfan ac nid rhai unigolion hyderus. Dechneg boblogaidd welodd wrth ymchwilio ar gyfer AAGD oedd y defnydd o Golau traffig, mae'r dechneg yn ffordd o hunan asesu ac yn hybu disgyblion i ddangos dealltwriaeth o'r cyfarwyddiadau. Wth edrych yn fanylach ar y dystiolaeth mae'n awgrymu fod y dechneg Golau Traffig yn hynod o boblogaidd gydag athrawon, roedd hyn cymhelliad mawr mewn gweithredu'r dechneg (Black, Assessment for Learning , 2007). Mae'r dechneg sy'n ofyn i'r plant dangos trwy liwiau penodol (coch, melyn, gwyrdd) dealltwriaeth o'r cyfarwyddiadau yn un syml ond yn hynod o effeithiol (Black, 2007). Gallwn ddyfalu fod rhai wedi mynd hanner ffordd trwy'r wers gyda syniad gwan o'r wers. Gyda'r dechneg yma roedd y broses o weld ac yna esbonio un yr un yn hawdd ac o fewn 5 munud roedd pob cerdyn yn wyrdd. Fel rydych yn weld wrth yr enghreifftiau yn fy ngwersi cynnar roedd agen addasu'r ffordd o AAGD. Gallwn weld o ddulliau cwestiynu ar ddiwedd enghraifft dau ac yna gan ddefnyddio dull golau traffig yn effeithiol yn enghraifft tri fod cynnydd sylweddol wedi eu gwneud wrth asesu dealltwriaeth y plant.

Wrth edrych ar enghreifftiau egwyddor drawsgwricwlaidd rydym yn gweld cynnydd

mewn hyder fi fel athro i weithredu technegau newydd o fewn fy ngwers. Fel unrhyw athro ti fas i'w pwnc roedd y rhagolwg o ddysgu egwyddorion llythrennedd a rhifedd yn achosi pryder. Credaf gallwn weld wrth edrych ar y tair enghraifft cynnydd sylweddol, gan ystyried tasgau diogel yn ystod yr wythnosau cyntaf i rai mwy unigryw a heriol tuag diwedd y profiad dysgu. Wrth edrych ar enghraifft gyntaf ble roedd disgwyl i'r disgyblion defnyddio'r wybodaeth o'r gwersi blaenorol er mwyn ysgrifennu llythyr tuag at y Pab. Wrth adfyfrio ar y wers welodd fod ormod o bwyslais ar gynnwys y llythyr, roedd y prawf llwyddiant yn ofyn am bum rheswm hanesyddol am adael yr eglwys Gatholig a welodd fod amrywiaeth mawr mewn gwaith y plant. Dadl welodd yn aml yn llenyddiaeth ar yr egwyddor yma oedd bod ofn ac amharodrwydd i'r cyfrifoldebau ac roedd hyn yn amlwg yn fy ngwersi cynnar (Spear , Gould , & Lee, 2000). Collais y cyfle i bwysleisio fod safon ysgrifennu llythyr, gan gynnwys strwythur ac iaith yr un mor bwysig ar wybodaeth hanesyddol. Adlewyrchodd hyn mewn gwaith y disgyblion gydag amrywiant mawr mewn faint o waith gafodd eu hysgrifennu. Mae hyn yn cymryd ni nol tuag at ddadl Paul Black sy'n dadlau'r faith fod "a number of pupils..are content to 'get by'.." (Black & Wiliam, 1998). Rhaid i ni fel athrawon sicrhau fod pob elfen o'i wersi trawsgwricwlaidd yn cael eu gweithredu i safon ragorol os rydym yn disgwyl ymateb llwyddiannus.

Wrth symud tuag at yr ail enghraifft dewisais, mae yna ddatblygiad graddol yn gynllun gwrs er mwyn gweithredu nodweddion trawsgwricwlaidd, fel sy'n cael eu nodi mae'r wers yn cynnwys agwedd o'r dyniaethau i gyd. Penderfynais ddefnyddio map i'w ddangos taith ar yr Armada o Lisbon i Brydain ac yna ofyn cwestiwn agored ar y daflen, oedd yn annog dealltwriaeth ddaearyddol. Roedd cymhelliad am y dasg wedi dod o'r profion cenedlaethol, a phenderfynais greu erthygl papur newydd oedd yn llawn gwybodaeth ble roedd disgwyl i'r disgyblion ddarllen ac yna ateb (Addysg Cymru, 2018). Roedd yna dal teimlad nad oedd y nodwedd drawsgwricwlaidd yn cael effaith sylweddol ar y wers. Teimlaf fod yna dal lle i wella a gyda mwy o ymchwil a thrafodaethau gydag adrannau gwahanol du fewn i'r ysgol dysgodd llawer am y potensial o greu gwrs gyda nodweddion trawsgwricwlaidd effeithiol. Gan fod blwyddyn 9 yn astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf welodd hyn fel cyfle allweddol i greu gwrs gyda nodweddion trawsgwricwlaidd o safon. Wrth edrych ar y drydedd enghraifft sy'n cynnwys cynllun gwrs a thaflen gwaith rydym yn weld tair tasg wahanol un llythrennedd sy'n dadansoddi cerdd Wilfred Owen, safbwyntiau Hanesyddol ac yna dasg rhifedd yn ofyn i greu graff linell. Wrth edrych yn ar y wers roedd pob tasg o dan y thema yn llwyddiannus ac yn cadw i'r amcan Hanesyddol y wers.

Mae'r drydedd egwyddor, adeiladu ar wybodaeth yn nodwedd rwy'n meddwl sy'n hynod o ddefnyddiol ac yn enghraifft gryf o addysgu a dysgu da. Mae'n bwysig i ni fel athrawon, enwedig athrawon Hanes i sicrhau fod ni'n ennyn diddordeb ddisgyblion. Yn fy ngwersi cynnar roeddwn i yn defnyddio dulliau syml o ddarganfod neu dargedu gwybodaeth y plant. Teimlaf fel athro newydd y fudd mewn gwestiynu a chynnal trafodaethau am y pwnc er mwyn weld pa wybodaeth sydd barod gyda'r plant. Welodd trwy ymchwil dechneg syml iawn i'w defnyddio pan dechrau pwnc newydd o'r enw 'Brain Storming' (Yuksel, 2012). Penderfynais ddefnyddio hyn yn fy ngwersi cynnar. Fel rydych yn gweld o'r enghraifft sy'n dod o'r nodiadau'r athrawes roedd y defnydd o gysylltu â gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus. Er mwyn datblygu'r egwyddor yma yn bellach penderfynais wneud fwy o ymchwil i weld pa dechnegau arall oedd ar gael i helpu'r disgyblion wneud cysylltiadau gyda'r wers. Gwelodd fod dechneg o wneud map meddwl ar ddechrau'r wers i wled pa wybodaeth sydd gyda'r plant am y pwnc yn ffordd hynod o ddefnyddiol i asesu a chychwyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae'r dechneg hefyd yn ffordd ddefnyddiol i ni fel athrawon i fynd nôl ato a gweld pa wybodaeth sydd wedi cael eu dysgu. Penderfynais ddefnyddio'r dechneg yma yn yr ail enghraifft ar ddechrau'r wers. Roedd y dasg agoriadol yn ofyn i'r plant i wneud map meddwl am Gristnogaeth gan nodi lluniau neu wybodaeth sydd gyda nhw yn barod (University, 2016). Wrth adfyfrio ar y ddwy enghraifft rydym yn gweld cynnydd o dasg lafar i dasg ysgrifenedig ble mae'r cyfle i gofnodi ac yna ychwanegu. Mae'r defnydd o'r egwyddor yma wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cynlluniau fel athro, wrth edrych ar y drydedd enghraifft rydym yn weld y brif dasg fel techneg o adeiladu ar wybodaeth flaenorol. Mae'r defnydd o ddiagram venn yn ofyn i'r plant gofnodi'r hyn sydd wedi cael eu dysgu dros y wythnosau diwethaf er mwyn ddangos cyswllt rhwng y gwersi. Wrth grynhoi credaf fod y tasgau adeiladu ar wybodaeth flaenorol yn hynod o effeithiol fel tasg agoriadol, enwedig pan ddechrau thema newydd. Mae'n ffordd hynod o ddefnyddiol o annog plant i feddwl a gwneud cysylltiadau dydd i ddydd gyda phwnc nad fyddai wedi ystyried o blaen.

Bwriad y safonau Professional yw galluogi ymarferwyr i fyfrio ar eu harferion, yn unigol ac ar y cyd ag eraill, yn erbyn safonau sy'n nodi arferion effeithiol. Mae'r broses o adfyfrio ar gynlluniau a gwersi yn helpu ni fel athrawon i ddatblygu yn broffesiynol er mwyn sicrhau safonau rhagorol. Mae yna nifer fawr o waith i wneud er mwyn cyrraedd safonau disgwyledig a throi ymchwilio ac ymarfer bydd cyfle i gyfoethogir sgiliau personol unigol mewn meysydd penodol. Wrth edrych ar yr

enghreiffiau mae yna un egwyddor sy'n sefyll allan i fi bydd rhaid sicrhau fy mod yn ffocysu arno yn y misoedd i'w ddod. Er mwyn wella profiad y disgyblion credai bydd agen ddatblygu a chynyddu fy sgiliau digidol o dan yr egwyddor drawsgwricwlaidd. Mae'r byd wedi moderneiddio a chredai mai agen defnyddio pob cyfle sydd ar gael i sicrhau fod disgyblion tu fewn i'r ysgol yn derbyn y cyfle i ddatblygu sgiliau yma. Mae yn llwyth o awgrymiadau a syniadau i'w gael a gyda'r nwyddau cywir mae'r potensial yn anhygoel i gyfoethogir profiad y plant. Mae'r defnydd o dechneg golau traffig (AAGD) yn ffordd hynod a defnyddiol i sicrhau fod pob disgybl yn elwa ac yn deall fy nisgwyliadau. Os rydym fel athrawon yn ymroddedig i godi safonau pob disgybl mae rhaid i ni weithredu ble bosib nodweddion AAGD (Black & Wiliam, 1998). Credai gall defnyddio'r dechneg trwy gydol fy ngyrfa yn addysg gan eu bod yn sicrhau fod pob disgybl y cyfle i ddangos i fi, dealltwriaeth o'r wers. Fel techneg maent yn hybu hyder i drafod yn annibynnol am ddysgu ac addysgu'r unigolyn, sydd yn datblygu meddylfryd twf positif (Black, 2007).

- (2017). Retrieved from Evidence Based Teachers Network : <https://ebtn.org.uk/prior-knowledge/>
- Addysg Cymru. (2018). Retrieved from Hwb: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/profion-darllen-a-rhifedd-cenedlaethol/>
- Alanzi, A. (2016). A Critical Review of Constructivist Theory and the Emergence of Constructionism .
- Ausubel, D. (1978). *Educational Psychology: A Cognitive View* . Holt McDougal .
- Barnes, J. (2005). *Cross-Curricular Learning 3-14*. London : Sage .
- Black, P. et al (2007). *Assessment for Learning: Putting it Practice* . Mcgraw Hill Education .
- Black, P., & Wiliam, P. (1998). *Inside the Black Box: Raising Standards through Classroom Assessment*.
- Bowen, T. (2009). Assessment for Learning . In S. Wallace, *A Dictionary of Education*. Oxford : Oxford University Press .
- Campbell, & Campbell. (2009). *Mindful Learning : 101 Proven Strategies for Student and Teacher Success*. Thousand Oaks.
- Cavendish, S. (1990). *Observing Activities* . London : London, Paul Chapman .
- Cummins, D. J. (2008). *The Three Pillers Of English Language Learning*. Retrieved from memberlodge.com: [http://ritell.memberlodge.org/Resources/Documents/General%20Education%20Resources/the%20three%20pillars%20of%20english%20language%20learning%20\(1\).pdf](http://ritell.memberlodge.org/Resources/Documents/General%20Education%20Resources/the%20three%20pillars%20of%20english%20language%20learning%20(1).pdf)
- Dochy, & Alexander. (1995). Mapping Prior Knowledge: A framework for discussion among teachers . *European Journal of Psychology of Education* , 225-242.
- Gorik, D. H. (2013). *Cross- Curricular teaching in Sweden and Flanders*.
- Jonassen, D. (1991). Educational Technology Research and Development . *Objectivism versus constructivism: Do we need a new philosophical paradigm?*
- Llywodraeth Cymru(2015)Adolygiad Donaldson "Dyfodol Llwyddiannus from https://dera.ioe.ac.uk/22165/2/150225-successful-futures-en_Redacted.pdf
- Nicol, M.-D. (2006). Formative assessment and self-regulated learning: A model and seven principles of good feedback practice. *Studies in Higher Education*.
- Spear , M., Gould , K., & Lee, B. (2000). *Who would be a teacher? A review of factors motivating and demotivating prospective and practising teachers*. NFER.
- University, C. M. (2016). *Carnage Mellon University* . Retrieved from Teaching Excellence & Educational Innovation: <https://www.cmu.edu/teaching/assessment/priorknowledge/index.html>
- Yuksel, I. (2012). *Activatingstudents' Prior Knowledge: The Core Strategies*.